24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cllr John Pughe Roberts
Cyngor Gwynedd
Neuadd y Sir
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

**Cyfeirnod:** DO21-04

**Dyddiad cyhoeddi:** 3 Mehefin 2021

Annwyl Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

# Adroddiadau ac Argymhellion Archwilio Cymru

Gobeithio eich bod yn cadw'n iach.

Efallai eich bod yn cofio bod rhai o staff Archwilio Cymru wedi dod i gyfarfod rhwydwaith cadeiryddion Pwyllgor Archwilio Cymru ddiwedd mis Tachwedd 2020 i sôn am y goblygiadau i bwyllgorau archwilio o ganlyniad i'r hyn a oedd bryd hynny y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Yn y sesiwn hon, fe wnaethom grybwyll yn fyr hefyd ein disgwyliad bod pwyllgorau archwilio yn mynd ati i ystyried ein hadroddiadau yn ymarferol. Diben y llythyr hwn yw egluro ac ehangu ar hyn.

Fel y gwyddoch, mae ein gwaith archwilio perfformiad yn cynnwys astudiaethau cenedlaethol, astudiaethau llywodraeth leol (fel ein hadroddiad diweddar am wasanaethau yn ôl disgresiwn), gwaith thematig (fel ein hasesiadau cynaliadwyedd ariannol) a gwaith sy'n fwy seiliedig ar risg yn lleol. Rydym yn ymgynghori â chyrff archwiliedig ynghylch pynciau posibl ar gyfer ein hastudiaethau llywodraeth genedlaethol a lleol, a phenderfynir ar ein gwaith lleol sy'n seiliedig ar risg drwy ein proses sicrhau ac asesu risg. Nodir ein rhaglen waith ar gyfer pob cyngor yn ein cynlluniau archwilio blynyddol.

Rydym wedi canfod bod dulliau cynghorau o ymdrin â'n hadroddiadau archwilio perfformiad, cynigion ar gyfer gwella ac argymhellion astudiaethau Llywodraeth Leol yn amrywio. Mae dulliau cynghorau yn amrywio o adolygiadau rheolaidd, tracwyr archwilio a chynlluniau gweithredu i adroddiadau ac argymhellion nad ydynt ond yn cael eu gweld pan fyddwn yn cyflwyno ein crynodeb archwilio blynyddol. Felly, nid

ydym yn hyderus bod pob cyngor yn gyson yn ystyried canfyddiadau ein hadroddiadau yn ymarferol.

O gofio mai swyddogaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor, byddem yn disgwyl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob cyngor ystyried pob adroddiad ar gyrff adolygu allanol yn ffurfiol – yn bennaf; Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, byddem yn disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt. Dylai'r pwyslais yn hyn o beth fod ar ddwyn swyddogion gweithredol a swyddogion i gyfrif er mwyn sicrhau y gweithredwyd ar adroddiadau ac argymhellion. Gall rhai o'n hadroddiadau fod yn berthnasol i'w hystyried gan bwyllgorau craffu hefyd.

Er mwyn helpu cynghorau i wneud hyn, bydd gennym ddull sydd wedi ei dargedu'n well ar gyfer dosbarthu adroddiadau terfynol wrth gyhoeddi, nodi ein disgwyliadau o ran sut y dylai cynghorau ymdrin â'n hargymhellion a darganfod pa un a yw'r disgwyliadau hyn wedi'u bodloni. Hefyd, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), mae'n rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru lunio amserlen sy'n nodi'r dyddiadau neu'r cyfnodau pan fydd Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn ymgymryd â'u gwaith. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r amserlen hon i gynghorau ac i gadeiryddion y Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio bob chwarter. Nid ydym yn bwriadu cyflwyno hyn yn ffurfiol i Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio bob chwarter ond byddwn yn cydgysylltu â chynghorau i drafod ein dull gweithredu lleol.

Bydd staff Archwilio Cymru yn parhau i weithio'n hyblyg i gyflawni ein rhaglen waith. Mewn ymateb i unrhyw gyngor gan y llywodraeth a chyfyngiadau dilynol, byddwn yn parhau i weithio o bell, gan adeiladu ar y trefniadau a wnaed yn 2020, tan y bydd yn ddiogel i ailddechrau cyflawni gweithgareddau ar y safle. Rwyf yn parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau na fydd gwaith staff Archwilio Cymru yn amharu ar y gweithgareddau hanfodol y mae angen i gyrff cyhoeddus eu gwneud i ymateb i'r heriau parhaus a gyflwynir gan y pandemig COVID-19.

Gobeithio y bydd y llythyr hwn o gymorth i chi. Cysylltwch â'n tîm lleol os oes gennych unrhyw anghenion neu bryderon penodol.

Yn gywir



Derwyn Owen
Cyfarwyddwr Archwilio